

# SIMON LLWYD Y FOTTY.

Tôn—*Wait for the Waggon.*

Am Simon Llwyd y Fotty fe dd'wedai llawer un,  
Nad oedd ei ben o bobtu yn gydphwys a chytun;  
Fe allai ar amserau fod arno ychydig goll,  
Ond pwy a dwyllai Simon er gwaethaf hyny oll.  
Pwy a dwyllai Simon, pwy a dwyllai Simon,  
Pwy a dwyllai Simon, a'i'chydig bach o goll.

Rhyw ddydd i ffair Llandegla aeth Simon gyda'i fuwch,  
O herwydd fod y gwartheg yn cyrhaedd prisiau uwch;  
A hithau'n hen gymanes, yn gyndyn iawu o'i llaeth,  
Fe dd'wedai Simon ganwaith, "does bosib cael dy waeth."  
Pwy a dwyllai Simon, &c.

Daeth ato ŵr boneddig, o ochr Penarlac,  
'Rol chwilio peth a'i theimlo, fe darawyd bargaen frac;  
"A wnewch ei chadw yma" medd hwnw, "am haner awr?"  
"Gwnaf siwr, gwnaf siwr" medd Simon, "ond dowch a'r  
pres i lawr." Pwy a dwyllai Simon, &c.

Daeth Sais cyn pen pum' mund. gan waaddi n rth eigege  
"Heil! what you ask for that old Cow? "Wel pedair punt  
ar ddeg."  
"What, fourteen pounds for that old thing. I'll only give you  
ten,"  
"Well dyma ddyu cynddeiriog," medd Simon, "Sold  
again!" Pwy a dwyllai Simon, &c.

Ond dranoeth wrth y Fotty 'roedd gŵr a'r hugan lās,  
Yn moesgar alw Simon i lawr o ben y dās;  
Aent law yn llaw i Ruthin, a Simon Llwyd yn fud,  
Er faint a dd'wedai'r Bobby, 'doedd berig yn y byd.  
Pwy a dwyllai Simon, &c.

Ar frys anfonai Simon am Dwrne mawr y dre',  
I geisio sythu'r pethau, a'u gosod yn eu lle;  
Fe dd'wedai hwnw'n union, fod *transport* am y tro,  
Os nad oedd modd gwneyd allan ei fod yn mhell o'i go'.

Pwy a dwyllai Simon, &c.

"Mi fedraf i am bum'pant, gael eto'th draed yn rhydd,"  
"Wel bendith," ebe Simon, "yr arian i chwi fydd."  
"Pan ei o flaen yr Ustus, paid ateb haner gair,  
Ond cana rhyw gân ddigrif a glywaist yn y ffair."

"Ni fedraf fi" medd Simon, "ond *Wait for the  
waggon*,"

"Mae hyny'n eithaf digon, i ddweyd fod arnat  
goll."

Yr Ustus a ddywedai, "Simon Llwyd, 'rych chw  
Yma i roi atebions i'n holl gofynions ni;  
Eich bod chwi gwidi gwerthi yr in biwch i dau dan,  
Am hyny beth si genich i ateb trosoch hin;"

Yna canai Simon, "*Wait for the Waggon*,"

Pwy a dwyllai Simon, a'i 'chydig bach o goll.

Yr Ustus a ddywedai, gan weiddi ar flaenau'i draed,  
"Mae hin i'r Mainc a'r Ynid yn *insult* mwya caed;  
Mi piaswn yn ei cosbi ond bod o'n pell o'i co,  
'Rwy'n sicr nad iw'n gymwys i werthu biwch na llo."

Yna canai Simon, &c.

Wel Simon Llwyd gychwynai yu union tua thre',  
A'r Twrne a'i cyfarchai, "*Bravo my lad, Hure*;  
Mi wnaethom iddynt edrych, fel ffyliaid yn y ffair,  
Wel Simon dowch a'r pum'pant i lawr yn ol eich gair."

Yna canai Simon, "*Wait for the Waggon*."

Pwy a dwyllai Simon, a'i 'chydig bach o goll.

TALIESIN O EIFION.